------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 94(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni ddewiswyd unrhyw gwestiynau amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Tawelu'r traffig: effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau

(60 munud)

**NDM6524** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei ymchwiliad i effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Gorffennaf 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 4 Hydref 2017.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i borthladdoedd Cymru o adael yr Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM6525** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei ymchwiliad i oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i borthladdoedd Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Awst 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 4 Hydref 2017.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6526** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu:

a) mai busnesau bach yw calon economaidd a chymdeithasol y stryd fawr yng Nghymru ond bod y gyfundrefn ardrethi busnes bresennol yn rhoi manwerthwyr mewn dinasoedd a threfi bach o dan anfantais sylweddol;

b) bod ardrethi busnes o'u hanfod yn annheg oherwydd mai ychydig, os unrhyw, berthynas sydd rhyngddynt â phroffidioldeb busnes a'u bod yn cael effaith iasol ar ganol trefi drwy ychwanegu costau sylweddol i'r broses o sefydlu busnesau newydd;

c) y byddai lleihau effaith ardrethi busnes yn helpu busnesau i oroesi'r heriau a achosir gan siopa ar y rhyngrwyd ac yn rhoi hwb sylweddol i'r stryd fawr.

2. Yn penderfynu:

a) fel mesur dros dro, hyd nes y caiff ardrethi busnes eu disodli gan dreth sy'n gysylltiedig â'r gallu i dalu, y dylai safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol o lai na £15,000 gael eu heithrio ac y dylai cyfraddau eiddo busnes sydd o fewn y band o £15,000 i £50,000 gael eu gostwng 20 y cant;

b) y dylai awdurdodau lleol Cymru annog masnach leol drwy gynnig parcio am ddim am o leiaf 60 munud mewn meysydd parcio canol tref;

c) y dylai datblygiadau siopa ar gyrion y dref ysgwyddo cyfran fwy ond rhesymol o'r baich ardrethi busnes ac y dylai cyfraddau o'r fath fod yn berthnasol i'w meysydd parcio, i helpu i adfywio canol trefi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)](): 

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd microfusnesau a busnesau bach a chanolig i lwyddiant cymunedau ac economi ehangach Cymru.

2. Yn nodi pwysigrwydd allweddol polisïau traws-lywodraethol sy'n cefnogi busnesau ar strydoedd mawr Cymru i ffynnu a thyfu.

3. Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi manwerthwyr y stryd fawr a busnesau eraill drwy ddarparu dros £200m o gyllid yn 2017-18 i gefnogi tua thri chwarter talwyr ardrethi yng Nghymru drwy ryddhad ardrethi.

4. Yn cydnabod nad yw dros hanner holl fusnesau Cymru'n talu unrhyw ardrethi o gwbl yn ystod 2017-18.

5. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu cynllun parhaol Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n fwy syml, yn fwy teg ac sy'n fwy penodol ar gyfer busnesau sy'n tyfu yng Nghymru o fis Ebrill 2018.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r penderfyniad i ddatganoli ardrethi busnes i Lywodraeth Cymru yn llawn a'r potensial y mae hyn yn ei ddatgloi.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-dethol]*

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dileu ardrethi busnes ar gyfer pob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000 y flwyddyn, a rhoi cymorth sy'n lleihau'n raddol i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o rhwng £10,000 ac £20,000;

b) eithrio pob busnes rhag talu unrhyw ardrethi yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fasnachu, er mwyn annog dechrau busnesau newydd ledled Cymru;

c) cyflwyno lluosydd hollt ar gyfer busnesau bach a mawr fel yn yr Alban a Lloegr; a

d) archwilio disodli ardrethi busnes yn gyfan gwbl gan ffurfiau eraill o drethi nad ydynt yn rhwystro cyflogaeth, adfywio canol trefi a buddsoddi mewn gwaith a pheiriannau.

**Gwelliant 4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi llywyddu dros y gyfradd uchaf o eiddo gwag ar y stryd fawr ym Mhrydain Fawr yn 2017, sef 14.5 y cant.

**Gwelliant 5.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) diddymu ardrethi busnes ar gyfer yr holl fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000; a

b) diwygio'r system ardrethi busnes ac ymchwilio i hollti lluosydd Cymru i gynyddu cystadleurwydd busnesau llai.

**Gwelliant 6.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y cyllid sydd ar gael i gefnogi cynlluniau peilot parcio am ddim yng Nghymru.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6522** [Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)]

Gwarchod a datblygu canolfannau rhanbarthol o ragoriaeth feddygol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Hydref 2017 i'w hateb ar 11 Hydref 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ba gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella cysylltedd rhyngwladol Cymru? (OAQ51151)

**2.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am dwf yr economi gig yng Nghymru? (OAQ51143)

**3.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i yrru economi Cymru ymlaen? (OAQ51162)

**4.** Leanne Wood (Rhondda): Sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? (OAQ51161)

**5.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y seilwaith rheilffyrdd yng Ngwent? (OAQ51140) **TYNNWYD YN ÔL**

**6.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i nodi 300 mlwyddiant geni William Williams Pantycelyn eleni? (OAQ51142**W**)

**7.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhoi i gynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â thrafnidiaeth? (OAQ51165)

**8.** Jeremy Miles (Castell-nedd): Beth yw rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o gefnogi busnesau Cymru i fasnachu â'i gilydd? (OAQ51157)

**9.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fanteisio i'r eithaf ar y manteision datblygu economaidd a fydd yn llifo i dde-ddwyrain Cymru yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth y DU y bydd yn diddymu tollau'r pontydd Hafren yn ystod 2018? (OAQ51158)

**10.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant twristiaeth? (OAQ51150) **TYNNWYD YN ÔL**

**11.** David Rees (Aberafan): Pa dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi am y manteision economaidd a ddaw i Port Talbot os bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adeiladu carchar ym mharc diwydiannol Baglan? (OAQ51160)

**12.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fasnachfraint reilffyrdd Cymru a'r Gororau? (OAQ51149) **TYNNWYD YN ÔL**

**13.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach a chanolig yng ngorllewin Cymru? (OAQ51155)

**14.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa bolisïau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno i gynorthwyo busnesau canolig? (OAQ51148)

**15.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith diddymu tollau'r pontydd Hafren ar lefelau traffig ar yr M4? (OAQ51146)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith am apwyntiadau i'r Goruchaf Lys? (OAQ51164**W**)

**2.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth yw asesiad y Cwnsler Cyffredinol o oblygiadau cyfansoddiadol y Confensiwn Sewel i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)? (OAQ51159)

**3.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch yr amserlen weithredu ar gyfer Deddf Cymru 2017? (OAQ51144)

**4.** Hefin David (Caerffili): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch cynyddu amrywiaeth mewn sylwadau a gaiff eu gwneud i'r Goruchaf Lys? (OAQ51152)

**5.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynglŷn â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)? (OAQ51163**W**)

**6.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth yw'r goblygiadau i Gymru o fabwysiadu system gyfiawnder unigryw a fydd yn adlewyrchu anghenion Cymru? (OAQ51154)